# Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio – y bumed flwyddyn

Dr Paul Litchfield

November 2014

# Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio – y bumed flwyddyn

Dr Paul Litchfield

Tachwedd 2014

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 10 o Ddeddf Diwygio Lles 2007

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2014**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk**.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint gan drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **https://www.gov.uk/government/publications/work capability-assessment-independent-review-year-5**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

**WCA Policy Team**
**Department for Work and Pensions**
**2nd Floor, Caxton House**
**Tothill Street**
**London**
**SW1H 9NA**

**E-bost: wca.evidence@dwp.gsi.gov.uk**

Argraffedig ISBN 9781474112352
Gwe ISBN 9781474112369

Rhif Adnabod 18111424 11/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

Rhagair 4

Crynodeb Gweithredol 5

# Rhagair

Hwn yw'r pumed adolygiad annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Lles 2007, a'r un olaf. Dyma'r ail adolygiad i mi ei gynnal a chynhaliwyd y tri adolygiad blaenorol gan yr Athro Malcolm Harrington. Nod yr Asesiad Gallu i Weithio yw gwahaniaethu rhwng y rheini na allant weithio oherwydd problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd a'r rheini sy'n ffit i wneud rhywfaint o waith neu a allai, gyda chymorth, ddychwelyd i fyd gwaith yn y pen draw. Mae'n weithredol ers 2008 ond gwnaed llawer o newidiadau iddo o ran ffurf a dehongliad, gyda rhai yn deillio o argymhellion adolygiad annibynnol. Er bod llawer o amser wedi mynd heibio, mae'r asesiad yn bwnc dadleuol iawn o hyd ac mae'n destun llawer o feirniadaeth. Yn wir, yn ddiweddar, galwodd y Pwyllgor Dethol ar Waith a Phensiynau am ailgynllunio strwythur canlyniadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn sylfaenol.[1]

O ystyried y cefndir hwn, ymddangosai'n briodol i'r adolygiad terfynol hwn adlewyrchu rhai o'r prif newidiadau a welwyd, archwilio'r effaith ar ganlyniadau ac ystyried pa wersi y gellid bod wedi'u dysgu er mwyn cynllunio unrhyw asesiad yn y dyfodol.

Mae'r prif egwyddorion o'm hadolygiad blaenorol wedi'u cario drosodd i'r flwyddyn hon. Rwy'n argyhoeddedig o hyd bod canfyddiad o degwch yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus unrhyw system fel hon a bod yn rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais am fudd-dal rannu'r canfyddiad hwn, yn ogystal â'r staff sy'n gweinyddu'r system a'r trethdalwr sy'n ei hariannu. Un o'r elfennau allweddol i gyflawni canfyddiad o degwch yw cyfathrebu ac mae'n amlwg bod yr Adran wedi gwneud ymdrech sylweddol i gynyddu ei gweithgarwch yn y maes hwn dros y blynyddoedd. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir yn astrus i bobl gyffredin o hyd ac mae'n bosibl na chaiff rhai grwpiau sy'n agored i niwed eu gwasanaethu cystal ag y gobeithid yn hyn o beth. Mae'r adroddiad yn amlygu'r meysydd hyn ac yn argymell camau gweithredu.

Mae iechyd meddwl hefyd yn faes yr wyf wedi canolbwyntio'n benodol arno o hyd. Problem iechyd meddwl yw prif gyflwr bron i hanner y bobl sy'n mynd drwy'r system hon a phan gaiff cyd-forbidrwydd ei gynnwys bydd y gyfran yn codi i ddwy ran o dair. Nid yw hyn yn peri llawer o syndod o ystyried pa mor gyffredin yw salwch meddwl yn ein cymdeithas ond mae maint y broblem yn nodi y dylai iechyd meddwl fod yn ganolbwynt i unrhyw drafodaeth am yr Asesiad Gallu i Weithio; nid yw hyn wedi bod yn wir bob amser yn y gorffennol. Eleni, roeddwn hefyd am archwilio'n fanylach brofiadau pobl ag anableddau dysgu. Mae'r grŵp hwn hefyd yn fawr, gan ei fod yn cynnwys tua 1.4 miliwn o bobl yn y DU, a gellid ystyried mai hwy sydd fwyaf agored i niwed o blith y sawl sy'n ceisio defnyddio system gymhleth. Daeth yn amlwg i mi bod sawl mater penodol y mae angen mynd i'r afael â hwy wrth roi cymorth i bobl ag anableddau dysgu drwy'r broses a gobeithio y bydd yr argymhellion a wnaed yn ddefnyddiol.

[1] Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Waith a Phensiynau, 2014, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ac Asesiadau Gallu i Weithio (HC 302).

Y llynedd, canolbwyntiais yn benodol ar y Grŵp Gweithgarwch Cysylltiedig â Gwaith ac eleni felly troais fy sylw at y prif faes canlyniadau arall, sef y Grŵp Cymorth. Mae nifer y bobl yn y categori hwn wedi bod yn cynyddu'n gyflym. Pan oeddent yn dechrau ar yr Asesiad Gallu i Weithio, cafodd 10% o ymgeiswyr newydd eu rhoi yn y Grŵp Cymorth, ond mae'r gyfran honno bellach wedi codi i bron i 50%.[2] Rwyf wedi ceisio deall yr ysgogwyr y tu ôl i'r newid hwn ond, fel sy'n angenrheidiol mewn adolygiad fel hwn, yn bennaf rwyf wedi nodi llinellau ymholiad i'w dilyn yn hytrach nag atebion penodol. Un maes sydd wedi achosi pryder penodol i mi yw'r nifer fawr o bobl ifanc o dan 25 oed sydd wedi cael eu rhoi yn y Grŵp Cymorth, yn bennaf o ganlyniad i broblemau iechyd meddwl. Byddwn yn awgrymu bod hwn yn fater sy'n llawer ehangach na'r Asesiad Gallu i Weithio ac sydd â goblygiadau hirdymor i gyflogadwyedd yr hyn a allai ddod yn "genhedlaeth goll".

Wrth feddwl am y dyfodol, rwyf wedi edrych ar systemau mewn rhai gwledydd eraill. Mae'n rhaid cael system sydd mor effeithiol â phosibl i'r DU ond gellid dysgu o'r hyn sy'n digwydd mewn llefydd eraill. Ymddengys i mi ein bod wedi mynd â'r Asesiad Gallu i Weithio mor bell ag y gellid mynd ag ef yn synhwyrol o ran diwygio ac addasu. Mae gwaith a'r gweithlu yn mynd drwy gyfnod o newid nas gwelwyd o'r blaen ac mae'n rhaid cwestiynu i ba raddau y gall asesiad a gynlluniwyd ar ddechrau'r ganrif hon ddiwallu anghenion cymdeithas yn ei thrydedd degawd. Os caiff asesiad newydd ei gynllunio, i ddechrau, dylid ystyried y cwestiwn sylfaenol ynghylch p'un ai gallu i weithio sy'n gysylltiedig ag iechyd yw'r maen prawf y mae cymdeithas am ei ddefnyddio i bennu lefelau budd-daliadau. Os mai dyna yw'r cylch gwaith o hyd yna dylid caniatáu digon o amser a defnyddio arbenigedd addas er mwyn creu a phrofi adnodd sy'n ddigon cadarn ac sy'n bodloni'r gofyniad ar gyfer tegwch tybiedig. Yn y cyfamser, fy nghyngor i fyddai sicrhau bod yr Asesiad Gallu i Weithio presennol yn cael cyfnod o sefydlogrwydd – nid yw'n berffaith o bell ffordd ond nid oes dewis amgen gwell y gellid ei roi ar waith ar unwaith.

Dr Paul Litchfield
Tachwedd 2014

[2] Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Medi 2014, Ystadegau a Gyhoeddwyd ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Asesiad Gallu i Weithio. Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf ac i'r pwynt canran agosaf.

# Crynodeb Gweithredol

1. Cynlluniwyd yr Asesiad Gallu i Weithio i bennu cymhwysedd i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae’n asesiad gweithredol yn seiliedig ar y syniad na ddylid pennu cymhwysedd yn ôl y disgrifiad o anabledd neu gyflwr iechyd unigolyn ond yn hytrach yn ôl y graddau yr effeithir ar ei allu i weithredu, a all amrywio’n sylweddol rhwng unigolion.

2. Mae’r Asesiad Gallu i Weithio wedi bod yn weithredol ers chwe blynedd bellach ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi gweld newidiadau parhaus. Mae nifer o ffactorau wedi ategu’r newidiadau hynny, yn cynnwys diwygiadau i bolisi’r llywodraeth, argymhellion o adolygiadau annibynnol a materion yn ymwneud â darparu gwasanaethau gweithredol.

3. Wrth gynnal yr Adolygiad hwn, daeth yn amlwg, er gwaethaf y newidiadau hyn a rhai gwelliannau diamheuol a wnaed, fod canfyddiad negyddol llethol o hyd ynghylch effeithiolrwydd yr Asesiad Gallu i Weithio ymhlith pobl sy’n cael asesiadau a’r unigolion neu sefydliadau sy’n rhoi cymorth iddynt.

4. Roedd y Pedwerydd Adolygiad yn canolbwyntio’n benodol ar iechyd meddwl. Mae hyn yn parhau yn y Pumed Adolygiad, gan ei ehangu hefyd i ystyried profiad y sawl ag anableddau dysgu a grwpiau eraill a all fod dan anfantais oherwydd y broses ac sy’n cael anawsterau penodol gyda’r Asesiad Gallu i Weithio. Roedd y Pedwerydd Adolygiad yn canolbwyntio’n benodol ar y Grŵp Gweithgarwch Cysylltiedig â Gwaith ac eleni, mae’r ffocws wedi newid er mwyn ystyried y Grŵp Cymorth yn fanylach.

5. Gan mai dyma’r adolygiad statudol olaf, yn ogystal â myfyrio ar ddatblygiad yr Asesiad Gallu i Weithio ers iddo gael ei gyflwyno, ymddengys ei bod yn briodol ystyried rhai o’r materion y gall fod angen i’r Adran Gwaith a Phensiynau eu hystyried yn y blynyddoedd i ddod.

## Canfyddiadau allweddol a themâu o’r adolygiad hwn

- **Datblygiad yr Asesiad Gallu i Weithio** – Gall maint a chwmpas y newidiadau niferus a wnaed i’r Asesiad Gallu i Weithio ers iddo gael ei gyflwyno fod wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol ac mae datblygiadau pellach wedi digwydd ers yr Adolygiad Annibynnol blaenorol. Cyflwynwyd ailystyriaeth orfodol yn 2013 ac mae cam y gellid bod wedi disgwyl iddo gael ymateb ffafriol bellach yn gysylltiedig â chanfyddiad negyddol iawn. Ymddengys bod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn. Profodd yr Adolygiad sy’n Seiliedig ar Dystiolaeth yr Asesiad Gallu i Weithio yn erbyn cyfres o ddisgrifyddion amgen. Nid oedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ddelfrydol mewn termau gwyddonol ond er hyn, mae’n ddarn o waith defnyddiol sydd wedi gwella dealltwriaeth o gynnwys yr Asesiad Gallu i Weithio a’r ffordd y caiff ei gymhwyso. Yn gyffredinol, cefnogir y casgliad a gyhoeddwyd nad oes achos cryf dros ddisodli’r Asesiad Gallu i Weithio â’r opsiynau amgen a brofwyd. Dylid ystyried gwersi a ddysgwyd ynghylch y defnydd o gyfweliadau lled-strwythuredig a materion mwy cymhleth yn ymwneud â sensitifrwydd a phenodoldeb wrth gynllunio unrhyw asesiad yn y dyfodol. Yn gyffredinol, yr ymdeimlad a geir yw nad yw’r Asesiad Gallu i Weithio wedi cael digon o amser i ymsefydlu ac mae pob newid yn adfer diddordeb y cyhoedd a gall atgyfnerthu canfyddiadau sy’n negyddol yn gyffredinol.

- **Grŵp Cymorth** – Ers ei gyflwyno yn 2008, gwelwyd newidiadau sylweddol yng nghanlyniadau unigolion sy'n cael Asesiad Gallu i Weithio. Yn 2009, canfuwyd bod 63% o'r bobl a aseswyd am y tro cyntaf yn ffit i weithio gyda 26% yn cael eu rhoi yn y Grŵp Gweithgarwch Cysylltiedig â Gwaith a 10% pellach yn cael eu rhoi yn y Grŵp Cymorth.[3] Erbyn 2013, roedd y canlyniadau hyn wed newid yn sylweddol gyda 47% o'r bobl oedd yn gwneud cais newydd yn cael eu rhoi yn y Grŵp Cymorth a chanfuwyd mai dim ond 34% oedd yn ffit i weithio. Roedd nifer o ffactorau yn gyfrifol am y newid hwn ac mae rhai yn debygol o fod yn rhai dros dro ond mae'r newid yn hynod ac, yn benodol, mae'r nifer gynyddol o bobl ifanc sy'n cael eu rhoi yn y Grŵp Cymorth yn peri pryder. Ymddengys mai'r prif ffactor dros y cynnydd yw'r defnydd o Reoliad 35 (2) (b), lle yr ystyrir bod unigolyn yn peri risg sylweddol o niwed. Mae'r categori hwn wedi cynyddu'n sylweddol o ran nifer a chymesuredd – mae tua 38% o achosion Grŵp Cymorth newydd bellach yn cael eu derbyn ar y sail honno.[4] Er syndod, gwneir dwy ran o dair o'r penderfyniadau hyn ar sail papur yn unig. Mae angen ymchwilio ymhellach i'r mater er mwyn sicrhau bod yr Asesiad Gallu i Weithio a gynhelir yn cyflawni bwriad y polisi ac y caiff unigolion eu rhoi yn y grŵp mwyaf priodol.
- **Canfyddiadau** – Amlygodd yr adolygiad blaenorol bwysigrwydd sicrhau bod yr Asesiad Gallu i Weithio yn deg yn ogystal â'i fod yn cael ei ystyried yn deg yn gyffredinol. Mae cyfathrebu effeithiol yn allweddol wrth wella'r canfyddiad hwn o degwch, i'r bobl sy'n cael yr Asesiad Gallu i Weithio ac i'r staff sy'n gweinyddu'r system. Mae'r Adolygiad hwn wedi ceisio safbwyntiau amrywiaeth ehangach o randdeiliaid drwy ddadansoddi tueddiadau yn y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â cheisio adborth gan yr aelodau o staff hynny yn yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gweithio ar yr Asesiad Gallu i Weithio. Mae dadansoddiadau a wnaed o'r cyfryngau cymdeithasol yn cadarnhau bod y canfyddiadau o'r Asesiad Gallu i Weithio yn negyddol iawn o hyd. Mae graddau'r negyddoldeb hwn yn arwyddocaol efallai o ystyried bod mwy na chwe blynedd wedi mynd heibio ers cyflwyno'r Asesiad Gallu i Weithio. Gellid bod wedi disgwyl y byddai safbwyntiau wedi meddalu wrth i bobl ymgyfarwyddo â defnyddio'r system newydd a gweld bod ymdrechion yn cael eu gwneud i'w gwella ond ymddengys nad yw hynny'n wir. Codwyd pryderon penodol ynghylch lefel y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau cyn cynnal Asesiad Gallu i Weithio. Mae'r ddibyniaeth ar ddulliau cyfathrebu ysgrifenedig traddodiadol yn anfantais i'r Adran Gwaith a Phensiynau ac ymddengys bod angen buddsoddi mewn adnoddau aml-gyfrwng o ansawdd gwell.

[3] Ystadegau a Gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Asesiad Gallu i Weithio, 11 Medi 2014. Mae'r hollffigurau wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf ac i'r pwynt canran agosaf.

[4] Tabl 12. Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2014, Ystadegau i gefnogi'r Pumed Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio.

- **Gwneud Penderfyniadau a phrosesau** – Yn haeddiannol ddigon, mae Swyddogion Penderfyniadau wedi cael eu grymuso i wneud penderfyniadau ar gymhwysedd i gael budd-daliadau ond y llynedd, nodwyd y gyfradd wrthdroi uchel sy'n codi o argymhellion Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol. Nid yw'r gyfradd wrthdroi mewn perthynas â symud pobl i'r Grŵp Cymorth mor uchel ag yr oedd i'r Grŵp Gweithgarwch Cysylltiedig â Gwaith, ond eto, ni cheir unrhyw symudiad o gwbl bron i'r cyfeiriad arall; pe byddai safbwynt cytbwys yn cael ei gymryd, mae'n annhebygol mewn unrhyw system y byddai newidiadau ond yn digwydd mewn un cyfeiriad. Pan ddyfernir Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i unigolyn caiff hyd y dyfarniad ei bennu hefyd a gall hwn fod cyn lleied â thri mis neu cyn hired â thair blynedd. Yn aml, ymddengys bod pennu cyfnodau ailgyfeirio byr ar gyfer y sawl sydd mor analluog fel eu bod yn cael eu rhoi yn y Grŵp Cymorth yn mynd yn groes i'r graen, a gall defnyddio'r Grŵp Cymorth ar gyfer pobl ifanc â chyflyrau acíwt, sy'n cyfyngu arnynt yn gyffredinol, arwain at fwy o ddrwg nag o les.
- **Grwpiau y mae angen rhoi sylw arbennig iddynt** – Mae gan 1.4m o bobl yn y DU anabledd dysgu a dim ond cyfran fach o'r rhai o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth.[5] Cafwyd llawer o adborth yn ymwneud â'r rhwystrau y mae unigolion ag anabledd dysgu yn eu hwynebu gyda'r broses Asesiad Gallu i Weithio. Mae hyn yn cynnwys anawsterau gyda gohebiaeth safonol yr Adran Gwaith a Phensiynau, a ysgrifennir mewn ffordd y mae llawer yn ei chael hi'n amhosibl ei deall heb gymorth. Byddai cyflwyno gohebiaeth Easy Read yn helpu rhywfaint i oresgyn yr anawsterau hyn. Mae'r asesiad wyneb i wyneb hefyd yn her benodol i lawer o bobl ag anabledd dysgu o ystyried y tebygolrwydd cyffredinol iddynt ddehongli cwestiynau'n llythrennol, rhoi ymatebion a fydd yn plesio yn eu barn hwy, a gorbwysleisio eu gallu. Gall bod yn agored i niwed fod yn sefyllfaol yn ogystal ag yn gynhenid i'r unigolyn. Mae'r Adolygiad wedi edrych ar bobl sy'n gadael y lluoedd arfog, pobl sy'n treulio cyfnodau estynedig yn yr ysbyty a phobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar. Mae pob grŵp yn wynebu ei rwystrau ei hun wrth ryngweithio â'r broses Asesiad Gallu i Weithio ac mae trefniadau cofnodi iechyd ansafonol yn berthnasol i bob un.
- **Dyfodol yr Asesiad Gallu i Weithio** – Yn ogystal ag edrych yn ôl, mae'n briodol i'r adolygiad annibynnol statudol olaf edrych ymlaen. Mae'r adroddiad gan y Pwyllgor Dethol ar Waith a Phensiynau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014 yn galw am ailgynllunio strwythur canlyniadau'r Asesiad Gallu i Weithio yn sylfaenol.[6] Gofynnwyd i'r Adolygydd gyfrannu at y drafodaeth hon mewn perthynas â strwythur asesiadau gallu i weithio a'r defnydd a wneir ohonynt wrth bennu cymhwysedd i gael budd-daliadau. Os gwneir penderfyniad i ailgynllunio'r Asesiad Gallu i Weithio yn sylfaenol, mae nifer o egwyddorion allweddol y dylai'r Adran eu hystyried:
  - Dylai unrhyw asesiad fod yn deg a dylid ystyried ei fod yn deg

[5] Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2014, Arolwg o Adnoddau Teulu yn y Deyrnas Unedig, 2012/13.
[6] Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Waith a Phensiynau, 2014, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Asesiad Gallu i Weithio (HC 302).

- Rhaid cael diben clir – efallai na fydd pennu cymhwysedd i gael budd-daliadau a chefnogi canlyniadau cyflogaeth yn amcanion cydnaws
- Dylid disodli elfennau sy'n weddill o'r model anabledd meddygol gyda model bioseicogymdeithasol
- Dylai staff adrannol fod wrth wraidd yr asesiad a dylent ysgogi gofynion o ran gwybodaeth
- Dylai unrhyw asesiad diwygiedig fanteisio ar wybodaeth a ddarparwyd eisoes i'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn hytrach na dyblygu ymdrech a mynd i gostau diangen
- Dylai Swyddogion Penderfyniadau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol weld amrywiaeth gynrychioliadol o achosion a chael hyfforddiant priodol ar effaith cyflyrau cyffredin ar allu

# Gogledd Iwerddon

6. Mae'r ddeddfwriaeth yng Ngogledd Iwerddon yn wahanol i'r ddeddfwriaeth ym Mhrydain Fawr er bod egwyddorion cydraddoldeb yn berthnasol. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nid oedd Bil Diwygio Lles (GI) 2012 wedi'i phasio ac felly nid oedd newidiadau Diwygio Apêl wedi'u gweithredu. Ymysg y gwahaniaethau allweddol eraill i Brydain Fawr mae contract ar wahân gyda'r Darparwr, sy'n parhau felly, a rôl yr Adran Cyflogaeth a Dysgu i roi cymorth i'r sawl sy'n cael budd-daliadau yn dilyn penderfyniad Asesiad Gallu i Weithio.

7. Mae'r data a gesglir fel mater o drefn yng Ngogledd Iwerddon a Phrydain Fawr yn wahanol felly ni ellir gwneud llawer o gymariaethau uniongyrchol. Er hyn, mae tuedd cynyddol i bobl gael eu rhoi yn y Grŵp Cymorth yn y ddwy awdurdodaeth ac ymddengys mai un ysgogwr pwysig yw'r defnydd cynyddol o Reoliad 35 (2) (b), mewn perthynas â risg sylweddol i iechyd meddwl neu iechyd corfforol. Mae nifer y bobl ifanc sy'n cael eu rhoi yn y Grŵp Cymorth yn uchel (48%) ac yn cynyddu; mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r duedd ym Mhrydain Fawr.[7] Mae gan bron hanner y bobl ifanc yn y Grŵp Cymorth gyflwr iechyd meddwl. Gallai'r nodweddion hyn arwain at ganlyniadau hirdymor sy'n fater gofid i gymdeithas.

8. Nid yw'r Adran Datblygu Cymdeithasol yn gweinyddu cymorth cysylltiedig â gwaith. Yn hytrach, gwneir y gwaith hwn gan yr Adran Cyflogaeth a Dysgu, drwy swyddfeydd Swyddi a Budd-daliadau yn bennaf. Ar hyn o bryd, yr unig wybodaeth a gaiff yr Adran Cyflogaeth a Dysgu o'r Asesiad Gallu i Weithio yw canlyniad yr asesiad a diagnosis meddygol. Mae absenoldeb unrhyw wybodaeth ynghylch galluoedd yn golygu bod yn rhaid i gynghorydd yr Adran Cyflogaeth a Dysgu ailystyried y materion hyn cyn gallu pennu nodau a hyfforddiant priodol i'r unigolyn dan sylw. Mae hyn yn aneffeithlon ac yn llai cynhwysfawr o bosibl na data'r Asesiad Gallu i Weithio ond mae hefyd yn ychwanegu ffactorau meddygol at yr hyn a ddylai fod yn rhyngweithiad sy'n canolbwyntio ar allu.

[7] Data llwytho byw MIDAS Uned Gwasanaethau Dadansoddol DSD.

ISBN 978-1-78425-398-1

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Tachwedd 2014

**www.dwp.gov.uk/cymraeg**